

Cynllun Ffioedd y Sefydliad 2016/17

Sefydliad:	Prifysgol Bangor
Prif Berson Cyswilt i'r Cynllun Ffioedd:	Dr Kevin Mundy
Swydd:	Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth
Ffôn:	01248 382043
E-bost:	k.mundy@bangor.ac.uk

Nodyn Canllaw: Rydym yn gofyn i sefydliadau ddarparu datganiadau byr, manwl a mesuradwy. Os nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn eglur, neu os ymddengys ei bod yn anodd ei chysoni â gwybodaeth arall yn ein meddiant, bydd angen eglurhad pellach arnom cyn gallu gwneud penderfyniadau.

Cyfeiriwch at y wybodaeth a ddarperir yn 'Fee Plan Guidance 2017/17' (www.hefcw.ac.uk) wrth ddrafftio eich Cynllun Ffioedd. *the Fee Plan Guidance 2016/17* (www.hefcw.ac.uk) when drafting your fee plan.

1. Pa lefel ffioedd yr ydych yn bwriadu eu codi o 2016/17?

a) Ydy eich sefydliad yn bwriadu codi ffioedd llawn amser uwchlaw'r gyfradd sylfaenol ar israddedigion?	Ydy <i>DS: Os 'nac ydyw' llenwch Q9 a'i ddychwelyd at HEFCW erbyn 22 Mai 2015.</i>
b) Beth yw'r gyfradd ffioedd uchaf arfaethedig (hyd at uchafswm o £9k) ar gyfer: i) Israddedigion llawn-amser ii) TAR (lle bo'n gymwys)	£9000 £9000
c) A fydd lefel i) (uchod) yn cael ei chodi ar yr holl israddedigion addysg uwch yn eich sefydliad?	Na fydd
d) Os na fydd, beth fydd y ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig llawn amser? Sylwer: Wrth gyfrifo hyn dylech gynnwys ffioedd hyd at a chan gynnwys y ffi sylfaenol o £4,000 yn ogystal â ffioedd uwchlaw'r lefel sylfaenol hon.	c£8993

2. Os ydych yn bwriadu codi ffioedd gwahanol ar gyfer cyrsiau gwahanol rhowch fanylion isod. Dylech gategoreiddio eich ffioedd drwy naill ai a) amcan y cymhwyster (HND / gradd/ gradd sylfaen etc) b) pwnc ac/neu c) carfan, fel y bo'n briodol.

Ar gyfer pob categori sydd wedi eu cynnwys rhowch fanylion am y niferoedd a ragdybir, ac os yw'r niferoedd (ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn unig) yn cynrychioli darpariaeth sydd allan ar fasnachfrait.

Yma dylid cynnwys myfyrwyr sy'n dod dan y drefn ffioedd newydd ym mhob blwyddyn astudio. Dylai'r ffioedd a'r niferoedd myfyrwyr a gofnodir roi'r ffi gyfartalog a nodwyd yn 1d a dylent fod yn gyson â'r incwm disgwylidig.

Ffi Arfaethedig £	Nod y Cymhwyster	Pwnc gyda'r Cod JACS	Carfan	Darpariaeth ar fasnachfrait? Y/N	Nifer y myfyrwyr tybiedig a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r cyfartaledd
£9,000	Pob gradd israddedig, yn cynnwys Meistr 4 blynedd integredig.	Pob pwnc	Pawb	N	5680
£9,000	TAR	Pob pwnc	Pawb	N	280
£7,300	HND FdSc	Astudiaethau Busnes Gwyddorau Chwaraeon (Hyfforddi Chwaraeon)	Myfyrwyr sy'n Dychwelyd	Y	15
£7,800	HND FdSc	Astudiaethau Busnes Gwyddorau Chwaraeon (Hyfforddi Chwaraeon)	Myfyrwyr Newydd	Y	15

Llais y myfyrwyr a gweithio mewn partneriaeth

DS: Gall sefydliadau gynnwys gwybodaeth yn yr adran hon o'u Cynlluniau Ffioedd 2015/16. Ond mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn gyfredol ac yn briodol i'r myfyrwyr sy'n cael mynediad yn 2016/17.

- 3. a) Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gyfathrebu'n eglur y ffioedd arfaethedig hyn i fyfyrwyr fydd yn cofrestru yn 2016/17 ac ar ôl hynny?
b) Eglurwch sut y byddant yn cael gwybodaeth eglur am y ffioedd y byddwch yn eu codi yn ystod eu hastudiaethau.**

Defnyddir nifer o gyfryngau i roi gwybod i ddarpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr am lefelau ffioedd y Brifysgol a'r gefnogaeth bwrsariaethau sydd ar gael. Rhoddir gwybodaeth am ffioedd ar wefan y Brifysgol, mewn deunydd printiedig a thrwy negeseuon e-bost ar yr holl ymgeiswyr. Caiff prospectws y Brifysgol ei argraffu dros 18 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol, ac felly mae prospectws mynediad yn 2016/17 yn cyfeirio darpar fyfyrwyr at wefan y Brifysgol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd a chefnogaeth bwrsariaethau yn 2016/17. Mae'r Brifysgol yn darparu datganiadau eglur ar ei gwefan mewn adran ffioedd benodol ar ffioedd a chyllid ar gyfer 2016/17 ymlaen a bydd yn cyhoeddi'r cynllun ffioedd cyn gynted ag y caiff ei gymeradwyo gan HEFCW. Bydd y ffioedd ar gyfer mynediad yn 2016/17 a'r bwrsariaethau a'r gefnogaeth arall sydd ar gael yn cael eu hysbysebu'n eang mewn Dyddiau Agored, ffeiriau recriwtio a digwyddiadau eraill. Yn hydref 2015 cynhyrchir deunydd marchnata'n amlinellu'r sefyllfa ffioedd myfyrwyr am 2016/17 gan gynnwys gwybodaeth am ffioedd, grantiau, benthyciadau, ysgoloriaethau a bwrsariaethau, a darperir copïau i'r holl ymgeiswyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio ei system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) i gyfathrebu â'i holl ymgeiswyr fel rhan o'i chynllun cyfathrebu parhaus, ac mae gwybodaeth am gyllid myfyrwyr yn cael ei hanfon yn rheolaidd drwy'r e-byst RhCC. Rydym yn cydweithio'n agos â Choleg Menai i sicrhau bod gwybodaeth ar gael hefyd ar eu gwefan. Mae myfyrwyr ar gyrsiau masnachfaint yng Ngholeg Menai yn gwneud cais trwy UCAS i Brifysgol Bangor ac maent wedi eu cynnwys yn ein cynlluniau cyfathrebu.

Bydd y ffioedd mynediad yn 2016/17 a'r bwrsariaethau a'r gefnogaeth arall sydd ar gael yn cael eu hysbysebu'n eang trwy'r Dyddiau Agored a'r ffeiriau recriwtio.

Nid oes gan y brifysgol unrhyw fwriad i godi'r ffi i fyfyrwyr presennol yn ystod eu hastudiaethau. Ar hyn o bryd nid yw rheoliadau Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ffioedd gael eu cynyddu uwchben y trothwy o £9000.

4. Disgrifiwch y prosesau yr ydych wedi eu defnyddio i ymwneud â'ch myfyrwyr, trwy Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (neu gorff cyfatebol), wrth lunio fersiwn derfynol Cynllun Ffioedd eich sefydliad ar gyfer 2016/17.

Mae Undeb y Myfyrwyr ym Mangor yn parhau i gael ei gynrychioli trwy ei gynrychiolwyr etholedig a swyddogion yn y trafodaethau ar ddatblygu cynllun ffioedd. Mae myfyrwyr Coleg Menai hefyd yn aelodau o Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n sicrhau cynrychiolaeth ddigonol. Mae UyM yn parhau i gymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar sut y dylid gwario incwm ffioedd ac wedi cyfrannu nifer o syniadau ac awgrymiadau a ymgorfforir yn y cynllun ffioedd bob blwyddyn. Mae UyM wedi cyfrannu gwybodaeth am ddisgwyliadau myfyrwyr gan sicrhau bod trafodaethau ar lefelau ffioedd y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cadarnhau bod y Cynllun Ffioedd yn adlewyrchu ei drafodaethau gyda'r Brifysgol.

Rydym yn ymwneud â'r corff myfyrwyr ynglŷn â llawer o faterion eraill heblaw dim ond llunio fersiwn derfynol y Cynllun Ffioedd ac mae'r ymwneud hwnnw wedi dod yn rhan bwysig o brosesau cynllunio a datblygu'r Brifysgol. Mae Undeb Myfyrwyr Bangor wedi meithrin perthynas gynhyrchiol iawn â'r brifysgol. Mae swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellorion ac uwch staff eraill ac maent yn cael gwahoddiad i ddod i'r holl Grwpiau Tasg a phwyllgorau'r Cyngor. Yn unol â'n hymrwymiad parhaus i sefydlu gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr yn gadarn ym mhob agwedd ar y profiad myfyrwyr, ysgrifennwyd y Strategaeth gyntaf ar Wella Profiad Myfyrwyr mewn cydweithrediad â'n Hundeb Myfyrwyr a goruchwylir gweithredu'r strategaeth, sydd am y blynyddoedd 2011 hyd 2014, gan Grŵp Llywio ar y cyd rhwng yr Undeb a'r Brifysgol. Mae ail strategaeth wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd mewn partneriaeth ag UyM at y cyfnod 2015 tan 2018. Yn ogystal â hyn, mae'r project "Llais Myfyrwyr" wedi bod mor llwyddiannus fel ei fod wedi ei sefydlu bellach fel elfen barhaol sy'n cyfrannu at ddatblygiadau strategol a chwricwlwm allweddol. Fe'i datblygwyd yn wreiddiol fel project tair blynedd ar y cyd ag ysgolion academaidd i wneud partneriaeth yn rhan greiddiol o weithio gyda myfyrwyr yn y disgyblaethau academaidd. Bydd pob ysgol academaidd yn awr hefyd yn pennu rhywun yn Gyfarwyddwr Ymwneud â Myfyrwyr.

Felly, mae'r camau yn y cynllun ffioedd yn gyson â'r meysydd allweddol a ddynodir trwy'r holl gysylltiadau hyn ac maent hefyd yn gyson â chanlyniad yr arolygon myfyrwyr gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, arolygon myfyrwyr blwyddyn 1 a blwyddyn 2, arolygon profiad ôl-radd hyfforddedig (PTES) ac ôl-radd ymchwil (PRES). Mae'r Cynllun Ffioedd hefyd yn ymateb i faterion a godwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol UyM, a fynychir gan uwch swyddogion - yn cynnwys yr Is-ganghellor, a'r adborth gan Undeb Athletau Undeb y Myfyrwyr ynglŷn â chyfleusterau chwaraeon.

Mae Prifysgol Bangor wedi gweithredu canllawiau HEFCW ar ymarfer da o ran cyllido undebau myfyrwyr democrataidd ac effeithiol a chynrychiolwyr myfyrwyr. Caiff ein Cytundeb Perthynas gydag Undeb y Myfyrwyr ei adolygu a'i ddiwygio bob blwyddyn, fel bo'n briodol, ynghyd â'r Siarter Myfyrwyr, drwy Grŵp Tasg UyM.

5. Rhowch fanylion ar sut yr ydych yn bwriadu darparu'r wybodaeth ganlynol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais/ yn cofrestru yn eich sefydliad:

- manylion llawn cyrsiau, gan gynnwys rhaglenni ac amserlenni dechreuol
- gwybodaeth am sut mae'r drefn newydd incwm ffioedd yn cyfrannu at ddatblygu cyrsiau
- gwybodaeth yn amlinellu'n union beth mae'r ffioedd a godir yn talu amdano
- gwybodaeth fanwl am y pecyn cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd ar gael yn eich sefydliad
- manylion am sut y cyhoeddir unrhyw newidiadau a all ddigwydd dros gyfnod y cwrs
- Adroddiad Blynnyddol ar ddefnyddio incwm ffioedd yn eich sefydliad lle dylech nodi canlyniadau eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Rhoddir manylion llawn am gyrsiau i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i Fangor trwy Ddyddiau Agored, y prospectws printiedig a'r prospectws ar-lein (sef y ffynhonnell fwyaf cyfredol o wybodaeth am gyrsiau). Caiff Setiau Gwybodaeth Allweddol eu diweddarau i'r myfyrwyr fydd yn dechrau yn 2016 a byddant yn ffynhonnell arall o wybodaeth am bob cwrs yn y Brifysgol yn cynnwys lefelau boddhad ynghylch addysgu, cyrsiau, cefnogaeth a chanllawiau, adborth, adnoddau llyfrgell a TG; cyflogadwyedd a manylion cyflog graddedigion; gwybodaeth am ddysgu ac asesiadau ar yr amserlen; a ffioedd, costau llety a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael. Anogir ymgeiswyr hefyd i fynd at Ysgolion yn uniongyrchol i ofyn cwestiynau am gyrsiau. Rhoddir yr amserlen ddechreuol i fyfyrwyr wrth gofrestru pan fyddant yn cyrraedd Bangor am y tro cyntaf.

Bydd Ysgolion yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr sut mae'r incwm newydd o ffioedd yn cyfrannu at ddatblygu cyrsiau a defnyddir y system cynrychiolwyr cyrsiau, a gyllidir yn rhannol gan y cynllun ffioedd hwn, fel cyfrwng i wneud hyn. Bydd datblygu cyrsiau hefyd dan drafodaeth yn rheolaidd yng Nghyfarfod Cyffredinol UyM, a fynychir gan uwch swyddogion.

Mae'r Siarter Myfyrwyr, a adolygir yn flynyddol, yn rhoi amlinelliad clir o ymrwymiad y Brifysgol i'r myfyrwyr. Bydd y Brifysgol hefyd yn nodi'n glir wrth fyfyrwyr yn union beth y telir amdano gan y ffioedd a bydd Ysgolion yn tynnu sylw at gostau ychwanegol gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chyrsiau astudio'r myfyrwyr, megis teithiau maes. Bydd y myfyrwyr yn cael gwybod am y costau hyn yn y Dyddiau Agored ac yn y deunydd recriwtio o'r Ysgolion perthnasol.

Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r cyngor a roddwyd i ddarparwyr Addysg Uwch gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ymwneud â chost astudio. Mae Prifysgol Bangor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw myfyrwyr yn wynebu taliadau cudd ac mae'r cynllun ffioedd yn cynnwys bwriad i sicrhau bod yr holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a chyfleoedd gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr yn cael eu darparu am ddim i fyfyrwyr ac yn cael eu cynnwys yn y ffi a godir. Bydd hyn ar gael hefyd i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau

masnachfrait yng Ngholeg Menai.

Nid oes gan y brifysgol unrhyw fwriad i godi'r ffi i fyfyrwyr presennol yn ystod eu hastudiaethau.

Mae Gweithgor Cynllun Ffioedd, sy'n cynnwys aelodau o Undeb y Myfyrwyr, yn cyfarfod i adolygu'r cynllun ffioedd yn flynyddol ac i fonitro perfformiad yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun ffioedd hwn. Mae'r Brifysgol yn rhoi adroddiad blynyddol ar y defnydd o incwm ffioedd ym Mangor bob blwyddyn ar ôl gorffen y cyfrifon blynyddol a'r datganiad monitro blynyddol i HEFCW. Bydd hyn yn nodi canlyniadau ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb.

Incwm o'r system ffioedd newydd

**6. Pa incwm newydd o ffioedd ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2016/17?
Dylech gynnwys unrhyw incwm dros £4K a dderbynnir y pen o ran
myfyrwyr israddedig llawn-amser a TAR.**

	2016/17 £
Israddedigion llawn-amser	£27.4m
TAR	£1.4m
Cyfanswm	£28.8m

7. Mae disgwyl i sefydliadau fuddsoddi o leiaf 30% o'u hincwm ffioedd sy'n uwch na'r lefel sylfaenol mewn perthynas ag a) cyfle cyfartal a b) hyrwyddo addysg uwch.

Rhowch fanylion am eich ymrwymadau ariannol i'r ddau faes buddsoddi. Dylai sefydliadau lle mae angen mwy o waith i sicrhau lefel uwch o gydraddoldeb mynediad fuddsoddi'n drymach yn y gweithgareddau hynny.

	2016/17 £
	Y cyfanswm a fuddsoddir o incwm ffioedd 2016/17* (o leiaf 30% o'r incwm ffioedd sy'n uwch na'r lefel sylfaenol)
a) Cyfanswm i'w fuddsoddi mewn cyfle cyfartal	£5.55m
b) Cyfanswm i'w fuddsoddi mewn hyrwyddo addysg uwch	£3.25m
Cyfanswm	£8.8m

*** Sylwer: Gwahoddir sefydliadau sy'n dymuno ystyried buddsoddi cyfran is o'u hincwm ffioedd nag a glustnodwyd yn eu Cynllun Ffioedd am 2015/16 i drafod hyn â HEFCW, yn dilyn trafodaeth â'u Hundeb Myfyrwyr.**

8. Cyd-destun strategol sy'n sail i gyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch yn y cynllun ffioedd

i) Cyfle Cyfartal	
<p>Canlyniadau strategol a sail resymegol</p> <p><i>Rhowch fanylion y canlyniadau strategol tymor hir a'r rhesymeg y tu ôl i'r buddsoddiad. Rhaid i sefydliadau gyfeirio at Strategaeth Gorfforaethol HEFCW a blaenoriaethau priodol Llywodraeth Cymru.</i></p>	<p>Targedau, meincnodau a dangosyddion sefydliadol</p> <p><i>Dylai bod modd gwirio'r rhain a'u meincnodi yn erbyn targedau Strategaeth Gorfforaethol HEFCW neu dargedau/dangosyddion presennol y sefydliad, neu gallant gynrychioli targedau gweithgarwch newydd. Dylai targedau fod yn SMART a chroesgyfeirio'n amlwg at y Canlyniadau Strategol gyferbyn y maent yn rhoi sylw iddynt.</i></p>
<p>Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn ymateb i ofynion Dyletswyddau Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol hanes maith o fod yn flaengar ym meysydd cydraddoldeb ac mae wedi ymrwmo i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn ymgorffori cydraddoldeb ym mhopeth rydym yn ei wneud a sicrhau bod pawb yn y brifysgol yn gallu cyflawni eu potensial.</p> <p>Nod Prifysgol Bangor yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel y gallant wireddu eu posibilïadau'n llawn a chael budd a mwynhad o'r rhan a chwaraeant ym mywyd y Brifysgol. I gyrraedd y nod hwn, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan ei holl aelodau, a darpar aelodau, yr hawliau sylfaenol isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael eu trin ag urddas a pharch • Cael eu trin yn deg • Cael eu hannog i wireddu eu posibilïadau'n llawn. <p>Fel rhan o'n hymrwymiad mae unrhyw wybodaeth i fyfyrwyr, yn cynnwys ein gwefan i Wasanaethau Myfyrwyr, ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch er mwyn</p>	

cyflawni anghenion unrhyw fyfyrwyr sydd eu hangen.

Thema Strategol Strategaeth Gorfforaethol HEFCW: Ehangu Mynediad - –
sichrau cynhwysiad, cynnydd a llwyddiant mewn addysg uwch

Canlyniad Strategol 1: Cefnogaeth Ariannol i Fyfyrwyr

Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa oddi wrthi, beth bynnag eu hoed, gender, dull a lefel astudio, gwlad wreiddiol a chefnidir (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar AU, Mehefin 2013). (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar AU, Mehefin 2013). Byddwn yn rhoi sylw i Anghysonderau o ran mynediad a chyfle (HEFCW CS) trwy ddiogelu mynediad teg a gwella cyfraddau cadw myfyrwyr trwy ddarparu cynllun bwrsariaethau gwell a hyblyg i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel a myfyrwyr sy'n dioddef caledi. Ochr yn ochr â phe cyn cymorth Lywodraeth Cymru byddwn yn targedu cymorth ariannol i hyrwyddo a chynnal mynediad i addysg uwch (Er mwyn ein Dyfodol t 15). [Bydd y bwrsariaethau hyn hefyd yn cyfrannu at darged 3.3 – cymdogaethau cyfranogiad isel a tharged 3.4 – Cymunedau'n Gyntaf.]

Er mwyn sichrau bod cefnogaeth ariannol benodol ar gael i rai mewn angen, byddwn yn sefydlu Cronfa Galedi yn y Brifysgol i'r holl fyfyrwyr, yn lle'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Bydd y gronfa hon yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Cefnogaeth gyffredinol i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl tra maent yn astudio, i'w helpu i barhau â'u hastudiaethau;
- Cronfeydd sefydlu i rai'n gadael gofal a rhai sy'n ddigartref;
- Grantiau a ddyfernir trwy brawf modd i gefnogi myfyrwyr â phlant i ddod o hyd i lety addas i deuluoedd yn ystod eu cyfnod o astudio er mwyn cefnogi mynediad myfyrwyr â phlant i addysg uwch.
- Cyllid a ddyfernir trwy brawf modd ar gyfer teithiau maes i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu mynd arnynt ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau ariannol, er mwyn sichrau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu cymryd rhan mewn teithiau maes a argymhellir ar eu cwrs, a thrwy hynny gyfoethogi dealltwriaeth o faes astudio academaidd a hybu cyflogadwyedd.

[Targed 1.1] Darparu cyfanswm o £3.7m o gyllid i fwrsariaethau a chronfa galedi i dros 3000 o fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau yn 2016/17. (gwaelodlin: £0.4m i 875 o fyfyrwyr newydd yn 2011/12)

Byddwn yn anrhydeddu'r ymrwymadau sydd yn weddill i'r Cynllun Bwrsariaethau Cyfrwng Cymraeg a bwrsariaethau eraill sy'n benodol i Fangor ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau.

Canlyniad Strategol 2: Ymestyn y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Rydym yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru "*i weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.*" (*Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013*). Mae datblygu ac atgyfnerthu ymchwil a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn agweddau allweddol ar strategaeth Prifysgol Bangor erioed. Mae gan y sefydliad tua 2,000 o fyfyrwyr sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ac mae tua 64% o'r staff naill ai'n medru'r Gymraeg neu'n ei dysgu. Fel prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, mae Prifysgol Bangor wedi ymrwmo i sicrhau'r safle digyffelyb hwn trwy wella ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda graddau cyfrwng Cymraeg amlddisgyblaethol sydd â chysylltiadau cryf â'r economi leol, cyflogaeth Gymraeg a dwyieithog ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i fyfyrwyr wneud rhan neu'r cyfan o'u rhaglenni gradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn galluogi'r brifysgol i wneud gwahaniaeth mawr i'n cymdeithas.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gadw'r holl ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg a gyllidwyd yn flaenorol ganddi, yn cynnwys trwy'r premiwm cyfrwng Cymraeg. Hefyd bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi cefnogaeth i adeiladu a gwella ehangder a dyfnder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad. Hyd at 2014/15, ac yn cynnwys y flwyddyn honno, mae'r Brifysgol wedi cael cyllid gan y Coleg ar gyfer 25 o swyddi darlithio cyfrwng Cymraeg, sef ychydig dan 25% o'r staff academaidd sy'n ymwneud ag addysgu cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn *galluogi myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod ehangach o raglenni* (*Er mwyn ein Dyfodol t 14, HEFCW Canlyniad 4*), defnyddir y cynllun bwrsariaeth i ysgogi myfyrwyr i wneud mwy na 40 credyd o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ychwanegol at gynllun ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gyllidir ar wahân.

Bydd y Brifysgol hefyd yn sefydlu 'Cronfa Gwella Cyfrwng Cymraeg' i gyllido cynlluniau bychain a fydd yn helpu i gynnal darpariaeth mewn ysgolion lle mae'r

[Targed 2.1] Bydd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio gwerth 5 credyd o leiaf o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnal a'i gynyddu ymhellach i 1395 yn 2017/17. (Gwaelodlin 2013/14: 1385). (Targed CS HEFCW T6)

[Targed 2.2] Bydd nifer y myfyrwyr sy'n astudio gwerth 40 credyd o leiaf o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn codi i 900 erbyn 2016/17 (Gwaelodlin 2012/13: 718). (Targed CS HEFCW T6)

niferoedd yn fychain.

Canlyniad Strategol 3: Cynyddu Mynediad i AU

Eir i'r afael ymhellach ag anghysonderau mewn mynediad a chyfle (Er mwyn ein Dyfodol t4 / HEFCW CS) trwy fuddsoddi ymhellach yn Rhaglen Dawn a Chyfle Bangor (TOP), sy'n gweithio gydag Ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth am grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli; trwy adnabod unigolion â photensial a datblygu sgiliau i baratoi myfyrwyr ar gyfer Addysg Uwch; a darparu dosbarthiadau adolygu a gweithgareddau eraill sydd yn anelu at wella cyraeddiadau plant ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion Dawn a Chyfle. Bydd gweithgareddau pellach yn cynnwys targedu dysgwyr hŷn o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ochr yn ochr â threialu gweithgareddau gyda grwpiau a chlybiau ieuenctid mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Byddwn yn cydweithio ar draws y rhanbarth i ymestyn cyfleoedd i grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli i ymwneud ag addysg uwch a chael profiad ohoni trwy ehangu gweithgareddau estyn allan STEM a chyflwyno gweithgareddau blasu a anelir at grwpiau penodol i wella mynediad i addysg uwch a dealltwriaeth ohoni.

Bydd y rhain yn hybu lefelau uwch o *well mynediad at gyfleoedd a chynnydd i bobl mewn mannau lle mae'r cyfryw gyfleoedd yn isel. (HEFCW Canlyniad CS).*

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddal Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle, nes caiff ei ddiddymu, lle mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyflawni meini prawf arbennig yn dangos ein hymroddiad i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal. Caiff ein strategaeth ei monitro trwy grŵp yn y Brifysgol a chyflwynir adroddiadau cynnydd i'r Ymddiriedolaeth. Mae ein darpariaeth yn cynnwys gwaith estyn allan gydag awdurdodau lleol* i godi dyheadau pobl ifanc sydd yn eu gofal, ac mae gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn y brifysgol i rai sy'n gadael gofal yn rhan integredig o'n gwaith gydag ysgolion lleol, colegau a staff gyrfaedd, yn ogystal â bod yn rhan o'n dyddiau blasu AU. Mae Canolfan Dyslecsia Miles yn gweithio

[Targed 3.1] Ehangu Rhaglen Dawn a Chyfle (TOP) Bangor o 1500 o ddisgyblion mewn 15 ysgol (2011/12) i 2250 o ddisgyblion mewn 23 ysgol erbyn 2016/17. (*Data PB*). Byddwn yn mesur cyfraniad Dawn a Chyfle trwy feincnodi cyfraddau cynnydd ôl-16 yn erbyn canrannau cyfartalog awdurdodau addysg lleol.

[Targed 3.2] 450 o ddisgyblion ysgol i fynd ar gyrsiau adolygu TGAU. (Gwaelodlin cyn 2012/13: Dim gweithgarwch) (*Data PB*). Byddwn yn mesur llwyddiant drwy gymharu graddau a gafwyd â graddau y rhagwelid y byddai disgyblion yn eu cael, yn ogystal â chofnodi cynnydd o TGAU i astudio pellach mewn ysgol neu goleg. (Does dim data gwaelodlin ar gael eto.)

[Targed 3.3] Cynyddu o 10.4% yn 2011/12 i 11.6% yn 2016/17 y cynnydd yng nghyfran yr holl fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor sy'n byw yng nghwintel isaf Ardaloedd Allbwn Is yn y Mynegai Cymreig o Amddifadedd Lluosog neu yn ardaloedd clwstwr Cymunedau'n Gyntaf. (Targed CS HEFCW T1)

[Targed 3.4] Cynnydd o 27.2% yn 2011/12 i

gyda rhieni a gofaluwr maeth yn y gymuned i dynnu sylw at faterion mewn perthynas â dyslecsia ac yn dangos y gefnogaeth a'r strategaethau y gall gofaluwr eu defnyddio i gefnogi plant a ddynodir gydag ystod o anawsterau dysgu penodol.

Mae'r Brifysgol yn datblygu ei chefnogaeth ymhellach i rai sy'n gadael gofal drwy gynnal digwyddiadau penodol* ar eu cyfer sy'n eu cymell i ddod i Addysg Uwch, ond sydd hefyd yn ein helpu ni i ddeall pa gefnogaeth ychwanegol fyddai o gymorth pellach i hwyluso eu symud i AU a'u cefnogi i symud ymlaen. Mae'r digwyddiadau cynnwys cyfraniadau gan ein myfyrwyr presennol sydd wedi gadael gofal eu hunain ac sy'n gweithredu fel enghreifftiau o lwyddiant i ddarpar fyfyrwyr sy'n gadael gofal. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i ddatblygu cefnogaeth ymhellach wedi'i seilio ar argymhellion gan rai'n gadael gofal. Trwy gynnal trafodaeth yn y ffordd hon mae'r Brifysgol yn gallu sicrhau ei hymrwymiad parhaus i gael gwared ar rwystrau i gymryd rhan a symud ymlaen, wedi'i seilio ar brofiad myfyrwyr presennol sydd wedi dod o ofal a darpar fyfyrwyr felly.

*Caiff gweithgareddau a nodwyd uchod â seren eu cynnal ar y cyd â'r bartneriaeth Ymgeisio'n Ehangach, ond dim ond gwariant yn gysylltiedig ag incwm y cynllun ffioedd sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn.

Mae taflen gan y Brifysgol sy'n amlinellu ein darpariaeth a'n cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal ac fe'i hanfonir at dimau gadael gofal yn yr awdurdodau lleol ar hyd a lled y wlad, ac at bawb sy'n gwneud cais i'r brifysgol sy'n nodi eu bod yn gadael gofal. Mae safle penodol i fyfyrwyr sy'n gadael gofal ar wefan y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr sy'n amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael ac sy'n cynnwys manylion cyswilt y cynghorwr penodol i rai sy'n gadael gofal. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys canllawiau cyn mynediad yn ystod proses ymgeisio a mynediad y brifysgol, yn cynnwys cymorth gyda cheisiadau am gyllid myfyrwyr. Mae cynghorwr penodol ar gael i roi cefnogaeth gyfrinachol drwy gydol y cwrs gradd.

Mae'r Brifysgol wedi creu Canolfan Ehangu Mynediad er mwyn cydlynu a chyfnerthu gweithgareddau ehangu mynediad y brifysgol. Dyma amcanion y Ganolfan:

28.6% yn 2016/17 yng nghyfran yr holl fyfyrwyr o'r DU sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor sy'n dod o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU. (Targed CS HEFCW T2)

[Targed 3.5] Cynnal nifer y myfyrwyr israddedig sy'n astudio pynciau STEM o gymdogaethau lle mae cyfradd isel yn mynd i addysg uwch ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i fod dros 1000 yn 2016/17. (gwaelodlin 2013/14). (*HESA Population / HEFCW CF & HEFCE POLAR3*)

- Cydlynu'r gwaith o roi'r strategaeth ehangu mynediad ar waith a hyrwyddo manteision AU i grwpiau a dangynrychiolir.
- Gweithredu fel hwylusydd i gynghori a chefnogi ysgolion academaidd i ddatblygu portffolio a rhaglenni ehangu mynediad, yn cynnwys darpariaeth ran-amser.
- Cefnogi elfennau ymchwil mewn projectau a wneir gan gydweithwyr academaidd.
- Cryfhau ymhellach gysylltiadau â Grŵp Llandrillo Menai mewn gweithgaredd ehangu mynediad a chodi dyheadau'r rhai sydd bellaf oddi wrth addysg.
- Darparu cysylltiad gweithredol rhwng y Brifysgol Agored, y rhaglen 'Ymestyn yn Ehangach', y Cynllun TOP, yr Ysgol Dysgu Gydol Oes a'r Ganolfan Sgiliau Astudio.
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio a chysylltu gyda chydweithwyr ym maes ehangu mynediad mewn rhannau eraill o Gymru a chyda sefydliadau allanol (e.e. sefydliadau cyflogwyr, Gyrfa Cymru, Rhwydweithiau Consortiwm 14-19 ac ôl-16) .

Mae llythyr cylch gorchwyl y gweinidog, dyddiedig 21 Mawrth 2013, yn pwysleisio'r flaenoriaeth y mae'n parhau i'w rhoi i ehangu mynediad i AU ac annog dyheadau addysgol, gwella cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr mewn AU a symud ymlaen i gyflogaeth lefel uwch mewn cymunedau a dangynrychiolir (yn cynnwys y clystyrau Cymunedau'n Gyntaf newydd a'r rhai sy'n byw yng nghwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru). Mae'r Ganolfan yn galluogi'r brifysgol i roi'r polisïau hyn ar waith mewn modd mwy pendant ac amlwg trwy gydlynu'r gwaith a wneir eisoes a datblygu mentrau newydd.

Mae enghreifftiau o waith estyn allan a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Partneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai i godi ymwybyddiaeth o fyddardod a helaethu darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, yn arbennig mewn ardaloedd newydd fel de Gwynedd. Gweithio gyda Betsi Cadwaladr gyda therapi cerddoriaeth i gleifion yn Hergest, gyda gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr yn cymryd rhan.

- Gweithio gydag ysgolion a theuluoedd yn Ynys Môn i fynd i'r afael ag achosion gordewdra; mae'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon a myfyrwyr eraill yn ymwneud â hyn.
- Arwain ymlaen o waith CCC yn hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg drwy dargedu'r sector ysgolion cynradd. Datblygu Cynllun Ehangu Mynediad i weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar delerau llawn-amser a rhan-amser, drwy Bwyllgor Ehangu Mynediad a ffurfiwyd yn ddiweddar o fewn Bwrdd Academaidd CCC.
- Datblygu'r *Family Learning Signature* (FLS) ymhellach, mewn partneriaeth â BusinessLab (Aberdeen), GwE ac ysgolion cynradd/uwchradd sy'n cymryd rhan, gyda'r bwriad o lunio ymyriadau a nodwyd gan deuluoedd o ran codi dyheadau a chael gwared ar rwystrau i astudio pellach. Rhan greiddiol o waith Prifysgol Bangor yw ymchwilio i'r FLS er mwyn goleuo datblygiadau yn y dyfodol, a bydd hynny'n parhau.
- Cydweithio ar lythrennedd a rhifedd, mewn partneriaeth â GwE, yn arbennig elfennau sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan.

Mae swydd newydd Pennaeth Ehangu Mynediad wedi cael ei sefydlu er mwyn bod yn ganolbwynt i waith y Ganolfan. Er mwyn hybu partneriaeth mewn cyfleoedd newydd a chyfleoedd datblygu, mae'r Ganolfan wedi sefydlu Fforwm Ehangu Mynediad Gogledd Orllewin Cymru, sy'n cynnwys aelodau staff academaidd, Ymgeisio'n Ehangach, y Cynllun TOP, Cymunedau'n Gyntaf ac aelodau o sefydliadau sy'n ymwneud â chymunedau a chodi dyheadau. Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i lunio partneriaethau a phrojectau newydd a hefyd i osgoi dyblygu gweithgareddau.

Canlyniad Strategol 4: Cynyddu Cyfraddau Cadw

Mae dal gafael ar fyfyrwyr yr un mor bwysig â recriwtio. Gall ehangu mynediad i rai heb unrhyw draddodiad o fywyd prifysgol beri sialensiau ychwanegol o ran dal gafael ar fyfyrwyr. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013. *Llwyddir i helpu myfyrwyr i gwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus (amcan CS HEFCW)*, a

[Targed 4.1] Gostyngiad o 170 (7.6%) yn 2011/12 i 150 (7%) yn 2016/17 yng nghanran israddedigion llawn-amser nad ydynt mwyach mewn addysg uwch flwyddyn

gwella dal gafael arnynt, trwy barhau i fuddsoddi mewn 'Canolfan Sgiliau Astudio'. Mae hon yn cefnogi'r sgiliau amrywiol sydd eu hangen ar fyfyrwyr wrth symud ymlaen i'r brifysgol, i gadw myfyrwyr, i lwyddo ac i wella cyflogadwyedd – mae'r sgiliau hyn yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, trafod gwybodaeth, TG, ystadegau, sgiliau arwain, gwaith tîm, cynllunio projectau, entrepreneuriaeth, sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig. Yn ogystal â darparu cefnogaeth ganolog mae'r 'ganolfan' yn gweithio gydag ysgolion academaidd i ddatblygu sgiliau astudio sydd wedi eu hymgorffori o fewn y cwricwlwm a chefnogaeth astudio dan arweiniad cyfoedion. Mae hyn yn cefnogi myfyrwyr wrth iddynt symud i AU, yn cael gwared â rhwystrau i gynnydd academaidd ac yn gwella cyfraddau cadw myfyrwyr. Yn unol â'n hymrwymiad parhaus i sefydlu gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ym mhob agwedd ar brofiad myfyrwyr, bydd cynlluniau mentora cyfoedion yn rhan greiddiol o gefnogaeth academaidd y Ganolfan Sgiliau Astudio, yn cynnwys cynllun canolog o fentoriaid cyfoedion (ysgrifennu) cyflogedig ac arweinwyr cynlluniau astudio mewn ysgolion academaidd.

Darperir cymorth lles i fyfyrwyr ymhellach yn 2015/16, yn enwedig myfyrwyr anabl, a myfyrwyr o grwpiau wedi eu tangynrychioli, trwy fuddsoddi'n ychwanegol mewn Gwasanaethau Myfyrwyr.

Yn unol â strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, mae'r brifysgol wedi penodi cynghorwyr iechyd meddwl ychwanegol (2.2 FTE erbyn hyn) er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau ac er mwyn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael fel bod modd i'r cynghorwyr iechyd meddwl weithio'n holistig ar draws y brifysgol i hybu ymarfer cadarnhaol ym maes iechyd meddwl yn y sefydliad. Bydd y cynghorwyr iechyd meddwl yn gweithio gyda staff ar draws y brifysgol a chydag Undeb y Myfyrwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol trwy ymgyrchoedd iechyd wedi eu targedu a mesurau ataliol, megis gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar i fyfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr a'r Gwasanaethau Myfyrwyr wedi cydweithio ar 'Addewid

ar ôl iddynt ddod i mewn. (Targed CS HEFCW T3a)

[Targed 4.2] Gostyngiad o 12 (27.3%) yn 2011/12 i 11 (25%) yn 2016/17 yng nghanran israddedigion rhan-amser nad ydynt mwyach mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl iddynt ddod i mewn. (Targed CS HEFCW T3b)

Amser i Newid' y Brifysgol, sy'n amlinellu ystod o ymrwymiadau ar y cyd i fynd i'r afael â'r stigma cymdeithasol a'r gwahaniaethu a all fod yn gysylltiedig ag anawsterau iechyd meddwl. Mae myfyrwyr wedi cyfrannu at greu strategaeth iechyd meddwl y brifysgol ac mae hyn yn sicrhau bod llais y defnyddwyr gwasanaeth i'w glywed yn null y brifysgol o ymdrin â hyn. Cynigir hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i bob categori o staff ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau dull integredig ac ymarfer gorau wrth gefnogi myfyrwyr sy'n cael problemau iechyd meddwl yn y brifysgol. Mae'r brifysgol wedi meithrin cysylltiadau llwyddiannus ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau llwybrau effeithiol i gyfeirio myfyrwyr a chynnig cefnogaeth integredig iddynt.

Mae cyfanswm y buddsoddiad ym maes sgiliau astudio a chefnogi lles a amlinellir yma yn werth dros £370,000 ac mae'n cynnwys penodi 11 o staff newydd, sef cynnydd o'r 10 o swyddi a nodwyd yn y cynllun ffioedd 2015/16.

Parheir i feithrin tegwch a chyfle cyfartal i'r holl fyfyrwyr trwy fuddsoddiad cyffrous fydd yn rhoi mynediad am ddim i'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr i'r myfyrwyr hynny sydd am fanteisio arnynt, waeth beth fo eu gallu i dalu. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag anghysonderau mynediad a chyfle a bydd yn gwella cyfraddau cadw hefyd gan fod myfyrwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau allgyrsiol yn aml yn fwy tebygol o barhau â'u hastudiaethau. Bydd cyllid yn sicrhau bod gan glybiau a chymdeithasu gyfleusterau ac offer addas ar gyfer eu gweithgareddau. Darperir cyllid hefyd i brynu eitemau unigol o offer mwy a fyddai, fel arall, efallai allan o gyrraedd gweithgareddau codi arian clybiau neu gymdeithasau unigol neu grantiau gan Undeb y Myfyrwyr ei hun. Caiff y cyllid hwn ei gyfnerthu ymhellach gan Gydlynnydd Datblygu Clybiau a Chymdeithasau a Gweinyddwr Gweithgareddau llawn-amser, a gwneir gwaith ymchwil i weld beth yw effaith clybiau a chymdeithasau ar brofiad myfyrwyr a dal gafael arnynt.

Bydd cyllid hefyd ar gael i brynu'r yswiriant gorau posib i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau drwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael y

<p>gefnogaeth orau posibl pe baent yn cael eu hanafu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau.</p> <p>Gwneir buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod gan glybiau a chymdeithasau myfyrwyr fynediad at amrywiaeth o gyfleusterau yng Nghanolfan Pontio newydd y brifysgol (yn cynnwys cyfnodau wedi eu neilltuo yn y brif theatr a'r theatr stiwdio).</p> <p>Bydd cyllid hefyd ar gael i wella a datblygu gweithgareddau Academi, sef canolfan gymdeithasol Undeb y Myfyrwyr. Yn ganolog i hyn bydd ymrwymiad i gynyddu amrywiaeth y gweithgareddau a'r cyfleusterau ar gael yn Academi i fyfyrwyr o bob oed a chefnidir a chaiff digwyddiadau sy'n seiliedig ar anghenion diwylliannol a diddordeb arbennig eu cynnig, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleusterau i gefnogi gweithgareddau clybiau a chymdeithasau.</p> <p>Mae cyfanswm y buddsoddiad ym maes gweithgareddau a chyfleusterau i fyfyrwyr a amlinellir yma yn werth dros £700,000.</p>	
ii) Hyrwyddo Addysg Uwch	
<p>Canlyniadau strategol</p> <p><i>Rhowch fanylion y canlyniadau strategol tymor hir a'r rhesymeg y tu ôl i'r buddsoddiad. Rhaid i sefydliadau gyfeirio at Strategaeth Gorfforaethol HEFCW a blaenoriaethau priodol Llywodraeth Cymru.</i></p>	<p>Targedau, meincnodau a dangosyddion sefydliadol</p> <p><i>Dylai fod modd gwirio'r rhain a'u meincnodi yn erbyn targedau presennol y sefydliad/targedau Strategaeth Gorfforaethol HEFCW, neu gallant gynrychioli targedau gweithgarwch newydd. Dylai targedau, meincnodau a dangosyddion fod yn rhai SMART a chroesgyfeirio'n amlwg at y Canlyniadau Strategol gyferbyn y maent yn rhoi sylw iddynt.</i></p>
<p>Thema Strategol Strategaeth Gorfforaethol HEFCW: Profiad Myfyrwyr - Sicrhau addysg uwch a phrofiad myfyrwyr o ansawdd rhagorol, wedi'i gyfoethogi gan lais y myfyrwyr</p>	<p>Yn ogystal â gwella profiad myfyrwyr yn gyffredinol (HEFCW Canlyniad 3), byddwn yn targedu'r amcanion penodol a ganlyn: [Targed 5.1] Cynyddu nifer yr Ysgolion â</p>

Canlyniad Strategol 5: Profiad Cyson i Fyfyrrwyr

Byddwn yn sicrhau y gwneir ymdrechion parhaus i roi profiad rhagorol i fyfyrwyr (Er Mwyn Ein Dyfodol t6, Canlyniad CS HEFCW) trwy roi profiad cyson i fyfyrwyr ym Mangor. Fe wneir hyn trwy fuddsoddi yn yr isadeiledd addysgu trwy uwchraddio ystafelloedd dysgu ar draws y brifysgol a buddsoddi mewn mannau dysgu cymdeithasol newydd. Byddwn yn parhau i ariannu Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) gyda chyfrifoldebau gweithredol cyffredinol yn ymwneud â meysydd megis profiad myfyrwyr, llety myfyrwyr a chyfleusterau a strategaeth chwaraeon i hybu gwelliannau i brofiad myfyrwyr.

Bydd y brifysgol yn ymrwmo hefyd i barhau'r swydd i gydlynu'r system cynrychiolwyr cwrs i gryfhau llais myfyrwyr ym Mangor a *sicrhau bod llais myfyrwyr yn cryfhau Addysg Uwch, (Er mwyn Ein Dyfodol t15, Canlyniad CS HEFCW).*

Byddwn yn mynd i'r afael â themâu gwella ansawdd Cyfeiriadau'r Dyfodol.

Mae partneriaeth yn fwy na dim ond gwranddo ar lais y myfyrwyr a galluogi myfyrwyr i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae gwir bartneriaeth yn dibynnu ar amgylchedd lle mae blaenoriaethau, cynnwys a chyfeiriad y profiad dysgu i gyd yn cael eu pennu gan fyfyrwyr a staff mewn partneriaeth. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013. Mae'r brifysgol wedi cyllido Project Llais Myfyrwyr fel rhan o'i hymrwymiad i weithio gyda myfyrwyr ar bob agwedd yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr, ac er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a amlinellwyd yn agenda WISE. Arweiniwyd hyn yn wreiddiol gan swyddog project llawn-amser, yn cydweithio'n agos â myfyrwyr ac ysgolion ac yn adrodd i bwyllgor llywio dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr). Mae'r project hwn yn awr wedi datblygu'n gynllun tymor hir i gyfoethogi ymwneud â myfyrwyr trwy greu Uned Ymwneud â Myfyrwyr.

O 2014/15, sefydlodd y brifysgol Gronfa Gwella Profiad Myfyrwyr i ariannu mentrau bychain, gydag effaith sylweddol iddynt, sydd y tu hwnt i gyllideb ysgolion a gwasanaethau canolog unigol.

sgôr boddhad cyffredinol o 85% neu uwch yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr o 11 (2013) i 18 erbyn 2017. (AROLWGW CENEDLAETHOL MYFYRWYR).

[Targed 5.2] Cynyddu canran y lleoedd addysgu a ddisgrifir fel "da neu ragorol" i 90%" erbyn 2016/17 (gwaelodlin 21% rhagorol, 55% da). (Data PB)

[Targed 5.3] Bydd y sgôr cyfartalog dros dair blynedd yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr i'r cwestiwn 'boddhad drwedd a thro' yn uwch na'r meincnod presennol. Targed 2016/17: 90% (Targed CS HEFCW T5)

Hefyd o 2015/16 bydd y Brifysgol yn ymrwmo i gyllido swydd lawn-amser yn Undeb y Myfyrwyr i gyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi'n ymwneud â phrojectau cynrychiolaeth academaidd, yn cynnwys: Datganiad Blynyddol Myfyrwyr, dyddiau cynllunio gweithredu'r NSS, y system cynrychiolwyr cyrsiau, y Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, a chyflwyniadau myfyrwyr i'r prosesau Archwilio Ansawdd Mewnol ac Ail-ddilysu. Bwriad y projectau hyn yw galluogi Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol i weithio mewn partneriaeth i gyfoethogi'r profiad myfyrwyr ymhellach, ac mae'r swydd hon yn hanfodol i sicrhau bod y gwaith o du UyM yn cael ei arwain gan fyfyrwyr a'i seilio ar dystiolaeth.

Canlyniad Strategol 6: Gwell Cyfleusterau Chwaraeon

Cafwyd penodiad i swydd newydd Cyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden, yn ogystal â'r buddsoddiad (a grybwyllir uchod) i roi mynediad i'r holl glybiau a chymdeithasau chwaraeon a gweithgareddau gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr yn rhad ac am ddim i'r myfyrwyr hynny sydd am fanteisio arnynt, waeth beth fo eu gallu i dalu. Mae'r myfyrwyr wedi gofyn am hyn a bydd yn rhoi hwb pellach i brofiad myfyrwyr ym Mangor.

Bydd y brifysgol yn buddsoddi ymhellach yn ei chyfleusterau chwaraeon yn unol â'i strategaeth chwaraeon, yn cynnwys:

- rhoi mynediad gyda chymhorthdal i weithgarwch chwaraeon a chorfforol i holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor,
- ymestyn oriau agor yr holl gyfleusterau chwaraeon
- cael mwy o bobl yng ngrwpiau targed Chwaraeon Cymru i gymryd rhan,
- ehangu cyllid i roi cyfleoedd ehangach mewn gweithgareddau nad ydynt yn rhai traddodiadol,
- ymestyn ein gwaith partneriaeth i roi mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr, yn cynnwys mynediad at gyfleusterau,
- rhoi cymhorthdal i fyfyrwyr fel y gallant gael mynediad at gymwysterau proffesiynol a hyfforddi, a gwella eu cyflogadwyedd,
- gwella ystâd chwaraeon y brifysgol gyda staff ac offer er mwyn sicrhau bod

[Targed 6.1] Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar weithgareddau chwaraeon nad ydynt yn rhai traddodiadol a sesiynau 'dewch i roi cynnig arni' o 100 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 500 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. *(Data PB)*

[Targed 6.2] Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster hyfforddi neu broffesiynol o 60 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 120 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. *(Data PB)*

[Targed 6.3] Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewnol o 300 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 1000 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. *(Data PB)*

[Targed 6.4] Bydd y brifysgol yn cadw nifer y bwrsariaethau chwaraeon a gynigir yn

mwy o adnoddau ar gael ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol (e.e. creu llwybr beiciau rhwng safleoedd, gwella llwybrau troed a mynediad at leoedd chwaraeon), ac

- ehangu'r rhaglen fewnol i gynnwys timau merched yn unig, timau cyfadrannau, timau neuaddau, timau rhwng safleoedd trwy ddarparu rhagor o gyfleusterau a gwahanol weithgareddau.

Canlyniad Strategol 7: Gwell Adnoddau Llyfrgell

Bydd y brifysgol yn buddsoddi mewn adnoddau a chyfleusterau i'r llyfrgell mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau'r myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ynglŷn â diffyg adnoddau a chyfleusterau, diffyg gwybodaeth am sgiliau astudio a dim digon o'r un llyfrau.

Byddwn yn parhau i foderneiddio ein llyfrgelloedd, darparu lleoedd arloesol gyda chyfoeth o dechnoleg ynghyd â manau astudio ar y cyd, astudio unigol a distaw, manau dysgu cymdeithasol a lleoedd neu ystafelloedd penodol i ôl-raddedigion.

Bydd model newydd o adnoddau gwybodaeth/dyrannu deunyddiau yn cael ei weithredu i sicrhau cyfle cyfartal i fyfyrwyr o ran cael mynediad at adnoddau.

Caiff system ddarllen/rhestr o adnoddau digidol ei gweithredu er mwyn rhoi'r myfyrwyr wrth wraidd y profiad a sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar restr ddarllen modiwl ar gael. Y tu ôl i hyn bydd polisi rhestr ddarllen gyda manylion am gymhareb nifer y llyfrau a brynir i bob myfyriwr. Bydd e-lyfrau yn cael eu prynu os ydynt ar gael a bydd penodau llyfrau ac erthyglau o gyfnodolion yn cael eu digido er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr sydd ar y campws ac oddi ar y campws gael mynediad atynt. Bydd llyfrau craidd/hanfodol yn cael eu prynu ar gymhareb o 1 llyfr am bob 10 myfyriwr, fel bo'n briodol. Byddwn hefyd yn lansio Gwasanaeth Llyfrau ar Alw er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr wneud cais am eitemau nad ydynt ar gael eto drwy'r system rhestrau darllen. Byddant yn gallu gwneud cais am eitemau yn y llyfrgelloedd ac ar-lein. Mae'r brifysgol hefyd yn gweithredu a darparu adnoddau i

2016/17 i 10 o leiaf. (gwaelodlin 2011/12)

[Targed 7.1] Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n fodlon ag adnoddau'r llyfrgell o 80% (gwaelodlin 2012) i 85% erbyn 2016/17. (AROLWG CENEDLAETHOL MYFYRWYR)

[Targed 7.2] Cynyddu gwariant ar lyfrau fesul myfyriwr llawn-amser o £11.87 (gwaelodlin 2010/11) i £25.00 erbyn 2016/17 er mwyn cymharu â sefydliadau cyffelyb. (Ystadegau SCONUL)

[Targed 7.3] Yn 2016/17 cedwir cymhareb llyfrau craidd/hanfodol ar restrau darllen i nifer myfyrwyr yn 1:10 lle bo'n briodol i'r ddisgyblaeth bwnc. (mae'r waelodlin gyfredol yn newidiol: 1:15 ac uwch). 1:15 and higher). (Data PB)

[Targed 7.4] Cynnal nifer sesiynau cynefino a sgiliau gwybodaeth ar 660, 25% yn uwch na lefelau gwaelodlin (gwaelodlin 2012/13)

<p>wasanaeth canolog benthyciadau rhyng-lyfrgellol i fyfyrwyr; bydd hwn yn canolbwyntio ar system cwota a chaiff ei adolygu'n flynyddol.</p> <p>Bydd dau aelod staff ychwanegol yn cael eu recriwtio i gefnogi darparu gwybodaeth am lythrennedd/sgiliau, rhoi hyfforddiant i fyfyrwyr ar fynd at e-adnoddau, rhoi cefnogaeth pwnc-benodol a chysylltu â'r gymuned academiaidd. Bydd un swydd yn arwain y gwaith o gydlynu a chyfeiriad strategol y tîm cefnogaeth academiaidd sy'n cyflwyno sgiliau gwybodaeth ac edrych ar effaith y ffordd y cyflwynir sgiliau gwybodaeth ar gyflogadwyedd. Bydd hyn yn sicrhau cefnogaeth ddigonol a phrofiad cyson i fyfyrwyr wrth ddefnyddio'r Llyfrgell a'i chyfleusterau.</p> <p>Erbyn 2015/16 byddwn yn pennu Hyrwyddwyr Llyfrgell i Fyfyrwyr ym mhob Coleg er mwyn ymwneud â myfyrwyr ynghylch datblygiadau yn y gwasanaeth llyfrgell ac archifau. Bydd yr Hyrwyddwyr Llyfrgell hyn yn gweithio ar broiectau allweddol er mwyn sicrhau bod datblygiadau i'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar anghenion myfyrwyr.</p> <p>Yn dilyn sylwadau gan fyfyrwyr, mae'r brifysgol hefyd yn agor y llyfrgell 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos yn ystod y flwyddyn astudio israddedig.</p> <p><u>Canlyniad Strategol 8: Rhyngwladoli'r Cwricwlwm</u></p> <p><i>Mae myfyrwyr rhyngwladol yn ychwanegu at gyfoeth ac amrywiaeth y myfyrwyr fel corff ac, felly, maent i'w croesawu a'u gwerthfawrogi. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013). Byddwn yn hybu'r broses o ryngwladoli addysg uwch yng Nghymru (HEFCW Canlyniad CS) trwy fuddsoddi yn y Ganolfan Addysg Ryngwladol newydd ym Mangor. Datblygwyd Strategaeth Addysg Ryngwladol newydd i sicrhau bod Bangor yn cynnig cwricwlwm modern perthnasol sydd yn lleol ac eto'n un y gellir ei gymhwyso'n rhyngwladol, a phrofiad unigryw i Fangor sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at ganlyniadau gyrfa pawb sy'n cael eu haddysg yma. [Yn cyfrannu at darged 9.2 – cyflogaeth graddedigion] Bydd hyn yn cynnwys rhyngwladoli ein cwricwla yn ogystal â sicrhau bod ein dulliau addysgu a dysgu'n sicrhau datblygiad deallusol myfyrwyr cartref a rhyngwladol fel ei gilydd, gan annog</i></p>	<p>525 o sesiynau). (data SCOUNL).</p> <p>[Targed 8.1] Cynyddu nifer y myfyrwyr israddedig cartref/UE sy'n astudio neu'n gwneud lleoliad dramor am gyfnod o flwyddyn neu semester i 180 erbyn 2016/17 (gwaelodlin 77 yn 2011/12). (Data PB)</p> <p>[Targed 8.2] Bydd y newid canran fesul blwyddyn yn nifer myfyrwyr tramor ym Mhrifysgol Bangor yn gyfartal neu'n uwch na'r ffigwr cymharol i addysg uwch yn y DU. (Targed CS HEFCW T7) Targed 2016/17: 1750</p>
---	---

<p>a chefnogi myfyrwyr i symud ymlaen a rhoi profiad rhyngwladol i fyfyrwyr y DU.</p> <p>Er nad yw'r gwaith o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn cael ei gyllido fel y cyfryw gan ffioedd israddedigion cartref, trwy wella profiad myfyrwyr yn gyffredinol ym Mangor a thrwy wella'r cwricwlwm byddwn yn gwneud Bangor yn lle mwy atyniadol i astudio ynddo ac yn sicrhau cynnydd pellach yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ym Mangor i gefnogi canlyniadau datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch a Strategaeth Gorfforaethol HEFCW.</p> <p><i>Mae symudedd myfyrwyr rhyngwladol yn fanteisiol i sefydliadau ac i fyfyrwyr. I fyfyrwyr, gall symudedd rhyngwladol wella cyfleoedd gwaith a datblygiad personol a rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad ieithyddol. Mae myfyrwyr hefyd yn elwa oddi wrth fwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a ffordd fwy byd-eang o edrych ar bethau. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013).</i> Bydd y brifysgol yn hybu symudedd myfyrwyr ac yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bob myfyriwr astudio dramor fel rhan o gwrs israddedig a bydd yn hepgor y ffioedd dysgu yn llawn i bob myfyriwr yn ystod eu blwyddyn dramor fel rhan o raglen pedair blynedd.</p> <p>Thema Strategol Strategaeth Gorfforaethol HEFCW: Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter – Sicrhau graddedigion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith, a phrifysgolion sy'n cyfrannu at weithlu medrus.</p> <p><u>Canlyniad Strategol 9: Graddedigion Cyflogadwy</u></p> <p><i>Mae llwyddiant economaidd yn dibynnu ar ehangu gweithlu hynod fedrus. Mae gwella cyflogadwyedd holl raddedigion ... yn flaenoriaeth allweddol i lywodraeth a</i></p>	<p>(gwaelodlin 2013/14: 1741).</p> <p>[Targed 8.3] Cynnig hepgor ffioedd llawn pob myfyriwr yn ystod eu blwyddyn dramor fel rhan o raglen pedair blynedd.</p> <p>[Targed 9.1] Bydd cyfran rhai'n gadael sefydliadau addysg uwch Cymreig gyda chymwysterau israddedig trwy astudio llawn-amser a rhan-amser, ac a oedd yn</p>
---	--

<p><i>phrifysgolion. (Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013).</i></p> <p><i>Byddwn yn sicrhau bod cyflogadwyedd yn ganlyniad allweddol y profiad addysg uwch (Er Mwyn Ein Dyfodol t6, Canlyniad CS HEFCW) trwy gynyddu buddsoddi mewn gweithgareddau gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr a buddsoddi sylweddol mewn cyflogadwyedd ac yng Ngwobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA). Mae'r cyllid ychwanegol a'r canolbwyntio ar weithgareddau allgyrsiol yn cyd-fynd â thema gwella ansawdd Cyfeiriadau'r Dyfodol, sef 'Gradddedigion Byd-eang: Galluogi Dysgu Hyblyg', trwy gynnig rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad a darparu strwythur i'r cynlluniau datblygu personol sydd eu hangen er mwyn gallu nodi a disgrifio'r sgiliau cyflogadwyedd a ddysgir o'r cyfleoedd hynny.</i></p> <p>Fel y prif gyfrwng ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn darparu fframwaith i'r sefydliad i weithredu gweledigaeth <i>Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd</i> i ddatblygu gradddedigion sy'n gallu rhoi tystiolaeth o'u sgiliau cyflogadwyedd a'u cyfathrebu'n glir i ddarpar gyflogwyr.</p> <p>Cyflwynir y wobwr trwy'r ysgolion academaidd ac mae'n cynnwys elfen orfodol o adfyfrio ar y sgiliau cyflogadwyedd a ddatblygwyd trwy'r rhaglen radd, ynghyd â gweithgareddau cyd-gwricwlaidd sy'n benodol i'r ddisgyblaeth. Yn y ffordd hon, mae angen i bob ysgol academaidd ddefnyddio fframwaith Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i sefydlu sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm yn unol â blaenoriaethau'r Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd. Mae asesu ar gyfer y wobwr yn seiliedig ar adfyfrio ac fe'i cefnogir gan gasgliad cynhwysfawr o sgiliau yn cynnwys cyfeirio at restr y CBI. Fel hyn rydym yn sicrhau bod y cynllun yn berthnasol i ofynion cyflogwyr ond eto'n ddigon eang i roi cyfleoedd datblygiadol i fyfyrwyr sy'n ddigon hyblyg i'w trosglwyddo i ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth.</p> <p>Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i wireddu blaenoriaeth y Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd o ddarparu lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith trwy weithgareddau sy'n cynyddu symudedd myfyrwyr. Mae profiad gwaith yn rhan orfodol o'r wobwr a gall gynnwys gwaith rhan-amser er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n gorfod ennill arian yn cael eu cau allan o'r wobwr ond, yn hytrach, eu cefnogi i ddatblygu sgiliau</p>	<p>gyflogedig, yn astudio, neu'r ddau, chwe mis ar ôl iddynt adael yn gyfartal â meincnod PI y DU, neu'n uwch na hynny (93.6% ar hyn o bryd yn achos isradddedigion llawn-amser gradd gyntaf) (Targed CS HEFCW T10)</p> <p>[Targed 9.2] Canran y rhai a adawodd ac a oedd yn gweithio, neu weithio ac astudio, ac a oedd wedi cael swydd reoli/broffesiynol chwe mis ar ôl iddynt adael i godi o 64% yn 2011/12 i 68.2% yn 2016/17. (Targed CS HEFCW T11)</p> <p>[Targed 9.3] Parhau i gynnig Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i isradddedigion ym mhob Ysgol yn 2016/17. (<i>Data PB</i>)</p> <p>[Targed 9.4] Cynyddu'r nifer sy'n gwneud Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i 50% ar draws yr holl flynyddoedd israddedig erbyn 2016/17 (gwaelodlin gyfredol 2011/12 – 17%). Rhagwelir cynnydd pellach yn y nifer sy'n manteisio ar y wobwr ar ôl ei gweithredu'n llawn am y tair blynedd gyntaf wrth i'r wobwr sefydlu gyda charfan o gyn-fyfyrwyr ar gael ym mhob ysgol i hyrwyddo'r wobwr i'r myfyrwyr presennol. (<i>Data PB</i>)</p> <p>[Targed 9.5] Parhau i recriwtio i'r targed mewn pynciau cwota sy'n bodloni'r angen am sgiliau, megis Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. (Targed CS HEFCW T9)</p>
---	--

trwy eu gwaith cyflogedig rhan-amser. Rydym yn darparu cynllun interniaeth haf cyflogedig penodol i fyfyrwyr anabl yn y Brifysgol fel y gallant gael profiad gwaith wedi'i seilio ar waith project. Bydd hyn yn rhoi canlyniadau clir iddynt a fydd yn cyfoethogi eu CV, a darperir y cyfan o fewn amgylchedd gwaith cefnogol a gaiff ei addasu i'w hanghenion cyn iddynt ddechrau'r interniaeth. Mae cynllun interniaeth gydol y flwyddyn yn y Brifysgol hefyd yn darparu ystod eang o gyfleoedd profiad gwaith i israddedigion presennol ac mae'n ychwanegu at y ddarpariaeth a geir gan GoWales. Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gwerth mwyaf posib o'n cynllun interniaeth, nid yw profiad blaenorol yn faen prawf gennym ar gyfer dewis rhai i'r cynllun. Yn hytrach, mae dewis rhai i'r lleoedd interniaeth wedi'i seilio ar feini prawf eraill fel y gall myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig, sydd fel rheol wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad cyn dod i Brifysgol, lwyddo trwy ddangos eu diddordeb a'u syniadau ar gyfer yr interniaeth. Bob blwyddyn caiff y cynllun ei asesu o ran cydraddoldeb er mwyn monitro sut mae myfyrwyr o bob cefndir yn cael eu cynrychioli o ran lefelau ymgeisio a recriwtio. Mae'r holl interniaid yn cael cefnogaeth datblygu gyrfa yn ystod yr interniaeth ac ar ei ôl er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o'r cyfle. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn ystod pob cam o gymryd rhan; yn ystod y camau ymgeisio a chyfweld mae'r holl fyfyrwyr yn cael cyfarwyddyd a sylwadau, fel bod pawb sy'n gwneud cais i'r cynllun yn elwa mewn rhyw ffordd.

Mae'r Wobr yn cynnwys elfen ddwyieithog i annog cydnabod gwerth y Gymraeg a sgiliau ieithyddol eraill, ac mae sgiliau menter ac entrepreneuriaeth wedi eu sefydlu yn rhan o'r cynllun. Cefnogir y wobwr gan hyfforddiant datblygu gyrfaedd ar-lein, ynghyd â hyfforddiant wyneb yn wyneb, gan felly sicrhau mynediad rhwydd at gyngor a chanllawiau gyrfaol i bob myfyriwr. Trwy gyfrwng y Ganolfan Sgiliau Rhanbarthol, gellir cael cyflogwyr i gyflwyno elfennau o'r hyfforddiant sgiliau ar gyfer y wobwr er mwyn cynyddu perthnasedd a dod â safbwynt y cyflogwr i'r wobwr.

Trwy fod yn fframwaith yn hytrach na rhaglen sefydlog, mae'r llwybr drwy'r wobwr wedi ei deilwra at anghenion unigol y myfyrwyr, gyda thrawsgrifiad a gynhyrchir ar ôl cwblhau yn rhoi manylion am yr ystod o weithgareddau a wnaed er mwyn ennill y

wobr. Mae sylwadau gan fyfyrwyr a gwblhaodd y wobr yn cynnwys tystiolaeth bod y wobr yn llwyddiannus o ran annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cyflogadwyedd a sgiliau ac yn gwella eu hunanymwybyddiaeth a'r gallu i gyfleu'n eglur pa mor drosglwyddadwy yw eu sgiliau. Yn y ffyrdd hyn, mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn fframwaith cynhwysfawr ar gyfer datblygu a hybu'n barhaus y blaenoriaethau yn y Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd, ac mae'n dangos ymrwymiad y sefydliad i thema gwella ansawdd Cyfeiriadau'r Dyfodol, sef 'Graddedigion Byd-eang: Galluogi Dysgu Hyblyg'.

Trwy fuddsoddi mwy, byddwn yn ehangu cynllun Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor Undeb y Myfyrwyr er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol a hyrwyddo cysylltiad rhwng myfyrwyr a'r gymuned. Byddwn yn buddsoddi mewn Cydlynnydd Partneriaeth Caru Bangor. Project yw Partneriaeth Caru Bangor gyda'r nod o ddatblygu cysylltiadau rhwng y gymuned myfyrwyr a'r gymuned barhaol ym Mangor er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol iddynt i gyd, megis costau a safonau tai, gwastraff ac ailgylchu, gwasanaethau cyhoeddus lleol a llawer mwy. Nod y project yw rhoi ffyrdd i fyfyrwyr ymwneud â grwpiau cymunedol lleol i ddatblygu projectau a chynlluniau newydd. Bydd penodi Cydlynnydd Partneriaeth Caru Bangor yn galluogi parhad a datblygiad gweithgareddau a datblygu cysylltiadau tymor hir gyda budd-ddeiliaid allweddol yn y gymuned. Mae'r gweithgarwch hwn yn fodd hefyd i *hybu swyddogaeth ddiwylliannol a chymunedol addysg uwch (Er Mwyn ein Dyfodol t7)*.

Wrth barhau i gefnogi ein myfyrwyr i ddod o hyd i swyddi i raddedigion ar ôl gorffen yn y brifysgol, byddwn yn cynyddu ystod ac amrywiaeth ein cysylltiadau gyda chyflogwyr yn y DU a thu hwnt trwy benodi swyddog cyswllt cyflogwyr arall. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Swyddfa Ymchwil a Menter, bydd y cynnydd yn yr adnoddau i ymwneud â chyflogwyr yn cynyddu cyfraniad cyflogwyr at waith y brifysgol ac yn fodd o wneud mwy o gydweithio mewn partneriaeth a chyflogwyr yn unol â'r thema gwella ansawdd 'Dysgu mewn Gwaith'.

Bydd y brifysgol hefyd yn darparu Cronfa Ymwneud â Chyflogwyr er mwyn hybu ymwneud ar lefel y disgyblaethau academiaidd er mwyn *ymwneud yn helaethach ac*

yn fwy ystyrllon â chyflogwyr (Polisi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013) a chael mwy o fewnbwn gan gyflogwyr i'r cwricwlwm.

Bydd y brifysgol hefyd yn cefnogi gweithgareddau menter, a fydd yn hybu entrepreneuriaeth ymysg myfyrwyr, yn dilyn y gostyngiad mewn cyllid gan HEFCW.

Canlyniad Strategol 10: Dysgu Rhan-amser a Hyblyg

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn adolygu a moderneiddio ei darpariaeth Dysgu Gydol Oes. Ar hyn o bryd mae Dysgu Gydol Oes yn ysgol academiaidd yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ond, ynghyd â'r ddarpariaeth sgiliau a hyfforddiant sydd yn y Swyddfa Ymchwil a Menter ar hyn o bryd, bydd yn dod yn adran wasanaeth newydd - y Ganolfan Sgiliau, Dysgu Hyblyg ac Addysg (SaFLE) - a fydd yn cefnogi ysgolion ar draws y brifysgol i gynnig darpariaeth hyblyg a rhan-amser. Bydd yr Uned yn cydweithio'n agos ag adrannau eraill (e.e. Cymraeg i Oedolion, Y Ganolfan Rheolaeth, Ymwybyddiaeth Ofalgar, yr Uned Ehangu Mynediad, Canolfan Sgiliau CADARN) lle ceir darpariaeth ran-amser eisoes ac ymwneud â'r gymuned a byd busnes, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu neu gystadlu academiaidd neu weinyddol, yn ogystal â sicrhau gwell cydlynw rhwng gwahanol weithgareddau dysgu. Bydd cydlynw gweithgareddau marchnata hefyd yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i roi cyhoeddusrwydd i'r amrywiol gyfleoedd dysgu sydd ar gael yn y Brifysgol ac yn y gymuned leol.

Bydd y Ganolfan Sgiliau, Dysgu Hyblyg ac Addysg (SaFLE) newydd yn cynnwys Ymwneud â Busnesau - gweithio gyda busnesau a gweithwyr gan ganolbwyntio ar wella sgiliau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) - a darpariaeth ran-amser a hyblyg gan roi cyfleoedd i unigolion fynd i gyrsiau academiaidd rhan-amser.

Arweinir yr Uned gan Gyfarwyddwr yn ogystal â chefnogaeth glercyddol, i'r elfen Dysgu Gydol Oes a DPP, gan fod yn atebol i arweinydd neu hyrwyddwr academiaidd. Mewn cyfnod pan mae ansicrwydd mawr ynghylch y cyllid fydd ar gael ar gyfer darpariaeth DPP, a lle mae niferoedd rhan-amser yn gostwng ar draws y DU, bydd y Cyfarwyddwr yn gweithio gydag Ysgolion ar draws y brifysgol i

[Targed 10.1] Sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Sgiliau, Dysgu Hyblyg ac Addysg (SaFLE) i gydlynw a hyrwyddo gweithgareddau rhan-amser ar draws yr holl Golegau ac i gyfnerthu niferoedd myfyrwyr rhan-amser yn wyneb gostyngiad ar draws y DU. O ystyried y gostyngiad diweddar yn niferoedd myfyrwyr rhan-amser ar draws y DU a Chymru, rydym yn anelu i gadw'r niferoedd ar lefelau cyfredol. (gwaelodlin 2013/14: 1932).


[Targed 10.2] Er y byddwn yn anelu at gynnal niferoedd, pe bai'r niferoedd yn cynyddu, bydd y newid canran yn nifer myfyrwyr rhan-amser ym Mhrifysgol Bangor yn gyfartal neu'n uwch na'r ffigur cymharol yn y DU. (Targed CS HEFCW T4)

ymestyn darpariaeth hyblyg ar draws y pum Coleg. Bydd y darpariaethau hyn yn dod yn lle astudio rhan-amser, lle mae'r niferoedd yn gostwng, gyda'r bwriad o gynnal niferoedd rhan-amser drwodd a thro. Bydd y Cyfarwyddwr yn cynghori ysgolion hefyd ar y gofynion i fyfyrwyr rhan-amser o ran cynnydd, gofal bugeiliol a chefnogi sgiliau astudio. Gan gydweithio â'r Uned Ehangu Mynediad, bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cyrsiau blasu byr heb eu hachredu yn y brifysgol ac yn y gymuned leol.

I grynhoi, bydd ad-drefnu Dysgu Gydol Oes yn arwain at well darpariaeth o ystod ehangach o gyrsiau rhan-amser a Datblygiad Proffesiynol Parhaus, darpariaeth ddysgu fwy hyblyg i fyfyrwyr rhan-amser a llawn-amser yn y brifysgol, ac adnodd mwy gwerthfawr i gymunedau lleol a busnesau ledled gogledd-orllewin Cymru

Llofnodi Atodiad B - i'w lenwi ar y copi papur gan bennaeth y sefydliad unwaith y bydd y Corff Llywodraethu wedi cymeradwyo'r cynllun ffioedd.

Dan adran 27 Deddf Addysg Uwch 2004 (Deddf 2004), mae'r Gweinidogion Cymreig wedi gosod amod ar y grant a delir i'r Cyngor, sydd yn ei dro'n rhoi amod dan adran 28 o Ddeddf 2004 ar y cyllid y mae'n ei bennu i sefydliadau perthnasol. Mae manylion yr amod a osodir ar gorff llywodraethu pob sefydliad perthnasol i'w cael yn Atodiad 2 llythyr cylch gorchwyl 2015-16, sydd i'w gael ar wefan HEFCW, www.hefcw.ac.uk.

Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	10 Gorffennaf 2015
Llofnod yr Is-ganghellor/Prifathro:	
Dyddiad:	10 Gorffennaf 2015

Targedau Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2013-14 hyd 2016-17 ¹ yn ymwneud â chyfle cyfartal a hybu addysg uwch	Eitem data sydd ei hangen	2013/14 ² perfformiad gwirioneddol hyd yma	Rhagamcan 2015/16 ³	Targed Cynllun Ffioedd 2016/17 ⁴	Sylwadau ategol (Cyfeiriwch at baragraff 35) ⁵																											
T1. Ehangu Mynediad Cynnydd o 20.1% yn 2011/12 i 22.4% yn 2015/16 (cynnydd o 11.6%) yng nghyfran holl fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru ac sy'n byw yng nghwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Is yn y Mynegai Cymreig o Amddifadedd Lluosog neu yn ardaloedd clwstwr Cymunedau'n Gyntaf	Nifer o CF / cwintel isaf ardaloedd WIMD Cyfanswm yn byw yng Nghymru Canran o CF / cwintel isaf ardaloedd WIMD	<table border="1"> <tr><td>459</td><td>510</td><td>510</td></tr> <tr><td>4273</td><td>4400</td><td>4400</td></tr> <tr><td>10.7</td><td>11.6</td><td>11.6</td></tr> </table>	459	510	510	4273	4400	4400	10.7	11.6	11.6	<table border="1"> <tr><td>510</td><td>510</td><td>510</td></tr> <tr><td>4400</td><td>4400</td><td>4400</td></tr> <tr><td>11.6</td><td>11.6</td><td>11.6</td></tr> </table>	510	510	510	4400	4400	4400	11.6	11.6	11.6	<table border="1"> <tr><td>510</td><td>510</td><td>510</td></tr> <tr><td>4400</td><td>4400</td><td>4400</td></tr> <tr><td>11.6</td><td>11.6</td><td>11.6</td></tr> </table>	510	510	510	4400	4400	4400	11.6	11.6	11.6	
459	510	510																														
4273	4400	4400																														
10.7	11.6	11.6																														
510	510	510																														
4400	4400	4400																														
11.6	11.6	11.6																														
510	510	510																														
4400	4400	4400																														
11.6	11.6	11.6																														
T2. Cyfranogiad Cynnydd o 33.2% yn 2011/12 i 35.3% yn 2015/16 (cynnydd o 6.3%) yng nghyfran holl fyfyrwyr o'r DU sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch neu addysg bellach yng Nghymru ac sy'n dod o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU.	Myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel Myfyrwyr yn byw yn y DU Canran o gymdogaethau cyfranogiad isel	<table border="1"> <tr><td>2401</td><td>2460</td><td>2460</td></tr> <tr><td>8628</td><td>8600</td><td>8600</td></tr> <tr><td>27.8</td><td>28.6</td><td>28.6</td></tr> </table>	2401	2460	2460	8628	8600	8600	27.8	28.6	28.6	<table border="1"> <tr><td>2460</td><td>2460</td><td>2460</td></tr> <tr><td>8600</td><td>8600</td><td>8600</td></tr> <tr><td>28.6</td><td>28.6</td><td>28.6</td></tr> </table>	2460	2460	2460	8600	8600	8600	28.6	28.6	28.6	<table border="1"> <tr><td>2460</td><td>2460</td><td>2460</td></tr> <tr><td>8600</td><td>8600</td><td>8600</td></tr> <tr><td>28.6</td><td>28.6</td><td>28.6</td></tr> </table>	2460	2460	2460	8600	8600	8600	28.6	28.6	28.6	
2401	2460	2460																														
8628	8600	8600																														
27.8	28.6	28.6																														
2460	2460	2460																														
8600	8600	8600																														
28.6	28.6	28.6																														
2460	2460	2460																														
8600	8600	8600																														
28.6	28.6	28.6																														
T3. Cadw myfyrwyr Gostyngiad o 9.2% yn 2011/12 i 8.2% yn 2015/16 (gostyngiad o 10.7%) yng nghanran israddedigion llawn-amser nad ydynt mwyach mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl iddynt ddod i mewn.	Cyfanswm Nifer ddim mewn AU mwyach Canran ddim mewn AU mwyach	<table border="1"> <tr><td>2125</td><td>2150</td><td>2150</td></tr> <tr><td>163</td><td>150</td><td>150</td></tr> <tr><td>7.7</td><td>7</td><td>7</td></tr> </table>	2125	2150	2150	163	150	150	7.7	7	7	<table border="1"> <tr><td>2150</td><td>2150</td><td>2150</td></tr> <tr><td>150</td><td>150</td><td>150</td></tr> <tr><td>7</td><td>7</td><td>7</td></tr> </table>	2150	2150	2150	150	150	150	7	7	7	<table border="1"> <tr><td>2150</td><td>2150</td><td>2150</td></tr> <tr><td>150</td><td>150</td><td>150</td></tr> <tr><td>7</td><td>7</td><td>7</td></tr> </table>	2150	2150	2150	150	150	150	7	7	7	
2125	2150	2150																														
163	150	150																														
7.7	7	7																														
2150	2150	2150																														
150	150	150																														
7	7	7																														
2150	2150	2150																														
150	150	150																														
7	7	7																														
T5. Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr Bydd y sgôr gyfartalog dros dair blynedd i Gymru am y cwestiwn 'boddhad cyffredinol' yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yr un fath â'r sgôr gymharol i'r DU, neu'n uwch na hynny.	Sgôr Cyfartaledd treiglol 3 blynedd	<table border="1"> <tr><td>2014²</td><td>2016</td><td></td></tr> <tr><td>91</td><td>90</td><td>90</td></tr> <tr><td>87</td><td>90</td><td>90</td></tr> </table>	2014 ²	2016		91	90	90	87	90	90	<table border="1"> <tr><td>90</td><td>90</td><td>90</td></tr> <tr><td>90</td><td>90</td><td>90</td></tr> </table>	90	90	90	90	90	90	<table border="1"> <tr><td>90</td><td>90</td><td>90</td></tr> <tr><td>90</td><td>90</td><td>90</td></tr> </table>	90	90	90	90	90	90							
2014 ²	2016																															
91	90	90																														
87	90	90																														
90	90	90																														
90	90	90																														
90	90	90																														
90	90	90																														
T6. Cyfrwng Cymraeg Bydd nifer y myfyrwyr yn astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru a fydd yn gwneud o leiaf 5 credyd o'u cwrs drwy'r Gymraeg yn cynyddu o 4,335 yn 2011/12 i 5,600 yn 2015/16, yn cynnwys cynnydd o 2,269 i 3,030 yn nifer y rhai a fydd yn gwneud o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg.	5+ credyd 40+ credyd	<table border="1"> <tr><td>1385</td><td>1390</td><td>1395</td></tr> <tr><td>767</td><td>900</td><td>900</td></tr> </table>	1385	1390	1395	767	900	900	<table border="1"> <tr><td>1390</td><td>1390</td><td>1390</td></tr> <tr><td>900</td><td>900</td><td>900</td></tr> </table>	1390	1390	1390	900	900	900	<table border="1"> <tr><td>1395</td><td>1395</td><td>1395</td></tr> <tr><td>900</td><td>900</td><td>900</td></tr> </table>	1395	1395	1395	900	900	900										
1385	1390	1395																														
767	900	900																														
1390	1390	1390																														
900	900	900																														
1395	1395	1395																														
900	900	900																														

Targedau Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2013-14 hyd 2016-17 ¹ yn ymwneud â chyfle cyfartal a hybu addysg uwch	Eitem data sydd ei hangen	2013/14 ² perfformiad gwirioneddol hyd yma	Rhagamcan 2015/16 ³	Targed Cynllun Ffioedd 2016/17 ⁴	Sylwadau ategol (Cyfeiriwch at baragraff 35) ⁵												
T10. Cyflogaeth Bydd cyfran rhai'n gadael sefydliadau addysg uwch Cymreig wedi cael cymwysterau israddedig trwy astudio llawn-amser neu ran-amser, ac sy'n gyflogedig, yn astudio, neu'r ddau, chwe mis ar ôl gadael yr un fath â'r gyfran yn y DU, neu'n uwch na hynny.	Poblogaeth sylfaenol Nifer yn gyflogedig, yn astudio, neu'r ddau Canran yn gyflogedig, yn astudio neu'r ddau	<table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="3">2012/13²</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1320</td> <td>1300</td> <td>1300</td> </tr> <tr> <td>1202</td> <td>1217</td> <td>1217</td> </tr> <tr> <td>91.1</td> <td>93.6</td> <td>93.6</td> </tr> </tbody> </table>			2012/13 ²			1320	1300	1300	1202	1217	1217	91.1	93.6	93.6	
2012/13 ²																	
1320	1300	1300															
1202	1217	1217															
91.1	93.6	93.6															
T11. Cyflogadwyedd Cyfran y rhai a adawodd ac a oedd yn gweithio, neu'n gweithio ac astudio, ac a oedd mewn swydd reoli/broffesiynol chwe mis ar ôl iddynt adael i godi o 67.5% yn 2010/11 i 72.7% yn 2015/16 (cynnydd o 7.7%).	Nifer yn gweithio neu'n gweithio ac astudio Nifer mewn swyddi rheoli neu broffesiynol Canran mewn swyddi rheoli neu broffesiynol	<table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="3">2012/13²</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1353</td> <td>1350</td> <td>1350</td> </tr> <tr> <td>914</td> <td>921</td> <td>921</td> </tr> <tr> <td>67.6</td> <td>68.2</td> <td>68.2</td> </tr> </tbody> </table>			2012/13 ²			1353	1350	1350	914	921	921	67.6	68.2	68.2	
2012/13 ²																	
1353	1350	1350															
914	921	921															
67.6	68.2	68.2															

Nodiadau

- 1) Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn Strategaeth Gorfforaethol HEFCW tan 2016-17
- 2) Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ag gyfer perfformiad gwirioneddol am 2013/14 ac eithrio lle nodir fel arall (mae'n berthnasol i ddata NSS, dangosyddion perfformiad cyflogaeth a DLHE)
- 3) Rhagamcan diweddaraf a ddarparwyd i HEFCW (cyfeiriwch at baragraff 31)
- 4) Rydym yn cydnabod na fydd rhai sefydliadau AB yn gallu pennu targedau cynllun ffioedd yn erbyn holl fesurau Strategaeth Gorfforaethol HEF
- 5) Mae sylwadau ategol a ddarperir yn y golofn hon yn cael eu cyflwyno'n gyfrinachol i HEFCW i'n cynorthwyo i asesu cynlluniau. A fydddech cystal â thynnu'r golofn hon cyn cyhoeddi eich cynlluniau terfynol, wedi'u cymeradwyo. am 2016/17.

Adran B

Cynllun Ffioedd HEFCW 2016/17 - Targedau, Meincnodau a Dangosyddion Sefydliadol

Mae'r tabl hwn wedi cael ei adael yn wag ar gyfer targedau, meincnodau a dangosyddion sefydliadau.

Targed Sefydliadol / Meincnod / Dangosyddion	Disgrifiad o'r Targed	Targed/ Meincnod / Dangosyddion 2016/17
[Targed 1.1]	Cymorth Ariannol	Darparu cyfanswm o £3.7m o fwrsariaethau gwell ar sail prawf modd i dros 3000 o fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau yn 2016/17. (gwaelodlin: £0.4m i 875 o fyfyrwyr newydd yn 2011/12)
[Targed 3.1]	Rhaglen Dawn a Chyfle	[Targed 3.1] Ehangu Rhaglen Dawn a Chyfle (TOP) Bangor o 1500 o ddisgyblion mewn 15 ysgol (2011/12) i 2250 o ddisgyblion mewn 23 ysgol erbyn 2016/17. Byddwn yn mesur cyfraniad Dawn a Chyfle trwy feincnodi cyfraddau cynnydd ôl-16 yn erbyn canrannau cyfartalog awdurdodau addysg lleol.
[Targed 3.2]	Cyrsiau adolygu TGAU.	450 o ddisgyblion ysgol i fynd ar gyrsiau adolygu TGAU. (Gwaelodlin cyn 2012/13: Dim gweithgarwch). Byddwn yn mesur llwyddiant drwy gymharu graddau a gafwyd â graddau y rhagwelid y byddai disgyblion yn eu cael, yn ogystal â chofnodi cynnydd o TGAU i astudio pellach mewn ysgol neu goleg. (Does dim data gwaelodlin

		ar gael eto.)
[Targed 3.5]	STEM o ardaloedd cyfranogiad isel	Cynnal nifer y myfyrwyr israddedig sy'n astudio pynciau STEM o gymdogaethau lle mae cyfradd isel yn mynd i addysg uwch ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i fod dros 1000 yn 2016/17 (gwaelodlin 2013/14).
[Targed 4.2]	Targed Strategaeth Gorfforaethol T3b: Dal gafael ar fyfyrwyr rhan-amser	Gostyngiad o 12 (27.3%) yn 2011/12 i 11 (25%) yn 2016/17 yng nghanran israddedigion rhan-amser nad ydynt mwyach mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl iddynt ddod i mewn.
[Targed 5.1]	Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr	Cynyddu nifer yr Ysgolion â sgôr boddhad cyffredinol o 85% neu uwch yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr o 11 (2013) i 18 erbyn 2016.
[Targed 5.2]	Lleoedd Addysgu	Cynyddu canran y lleoedd addysgu a ddisgrifir fel "da neu ragorol" i 90%" erbyn 2016/17 (gwaelodlin 21% rhagorol, 55% da).
[Targed 6.1]	Chwaraeon anhraddodiadol	Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar weithgareddau chwaraeon nad ydynt yn rhai traddodiadol a sesiynau 'dewch i roi cynnig arni' o 100 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 500 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. (Data PB)
[Targed 6.2]	Cymwysterau hyfforddi chwaraeon	Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster hyfforddi neu broffesiynol o 60 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 120 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. (Data PB)
[Targed 6.3]	Chwaraeon mewnol	Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewnol o 300 o fyfyrwyr (gwaelodlin 2011/12) i 1000 o fyfyrwyr erbyn 2016/17. (Data PB)

[Target 6.4]	Bwrsariaethau Chwaraeon	Bydd y brifysgol yn cadw nifer y bwrsariaethau chwaraeon a gynigir yn 2016/17 i 10 o leiaf. (2011/12 gwaelodlin: 5)
[Target 7.1]	Bodddhad myfyrwyr: Llyfrgell	Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n fodlon ag adnoddau'r llyfrgell o 80% (gwaelodlin 2012) i 85% erbyn 2016/17.
[Target 7.2]	Gwario ar ddeunyddiau llyfrgell	Cynyddu gwariant ar lyfrau fesul myfyriwr llawn-amser o £11.87 (gwaelodlin 2010/11) i £25.00 erbyn 2016/17 er mwyn cymharu â sefydliadau cyffelyb.
[Target 7.3]	Llyfrau craidd / rhestrau darllen	Yn 2016/17 cedwir cymhareb llyfrau craidd/hanfodol ar restrau darllen i nifer myfyrwyr yn 1:10 lle bo'n briodol i'r ddisgyblaeth bwnc. (mae'r waelodlin gyfredol yn newidiol: 1:15 ac uwch).
[Targed 7.4]	Sgiliau gwybodaeth Llyfrgell	Cynnal nifer sesiynau cynefino a sgiliau gwybodaeth ar 660, 25% yn uwch na lefelau gwaelodlin (gwaelodlin 2012/13 525 o sesiynau).
[Targed 8.1]	Symudedd myfyrwyr	Cynyddu nifer y myfyrwyr israddedig cartref/UE sy'n astudio neu'n gwneud lleoliad dramor am gyfnod o flwyddyn neu semester i 180 erbyn 2016/17 (gwaelodlin 77 yn 2011/12).
[Targed 8.2]	Targed Strategaeth Gorfforaethol T7: Niferoedd Myfyrwyr Tramor	Bydd y newid canran fesul blwyddyn yn nifer myfyrwyr tramor ym Mhrifysgol Bangor yn gyfartal neu'n uwch na'r ffigur cymharol i addysg uwch yn y DU. Targed 2016/17: 1750 (gwaelodlin 2013/14: 1741).
[Targed 8.3]	Symudedd myfyrwyr - hepgor talu ffioedd	Cynnig hepgor ffioedd llawn pob myfyriwr yn ystod eu blwyddyn dramor fel rhan o raglen pedair blynedd.
[Targed 9.3]	Gwobr Cyflogadwyedd Bangor - helaethu	Parhau i gynnig Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i israddedigion ym mhob Ysgol yn 2016/17. (Data PB)

[Targed 9.4]	Gwobr Cyflogadwyedd Bangor - nifer sy'n ein gwneud	Cynyddu'r nifer sy'n gwneud Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i 50% ar draws yr holl flynyddoedd israddedig erbyn 2016/17 (gwaelodlin gyfredol 2011/12 – 17%).
[Targed 9.5]	Targed Strategaeth Gorfforaethol T9: ITT / HCA	Parhau i recriwtio i'r targed mewn pynciau cwota sy'n cwrdd â'r angen sgiliau, megis Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.
[Targed 10.1]	Canolfan Dysgu Gydol Oes	Sefydlu Canolfan newydd ar gyfer Sgiliau, Dysgu Hyblyg ac Addysg i gydlynu a hyrwyddo gweithgareddau rhan-amser ar draws yr holl Golegau ac i gyfnerthu niferoedd myfyrwyr rhan-amser yn wyneb gostyngiad ar draws y DU. (gwaelodlin 2013/14: 1932).
[Targed 10.2]	Targed Strategaeth Gorfforaethol T4: Niferoedd myfyrwyr rhan-amser	Er y byddwn yn anelu at gynnal niferoedd, pe bai'r niferoedd yn cynyddu, bydd y newid canran yn nifer myfyrwyr rhan-amser ym Mhrifysgol Bangor yn gyfartal neu'n uwch na'r ffigwr cymharol yn y DU.